



**GWNEWCHY**  
**PETH**  
**IAWN:**

sicrhau tegwch mewn cynrychiolaeth  
hil-ddiffiniedig mewn bywyd cyhoeddus  
a gwleidyddol yng Nghymru

**CRYNODEB**  
**GWEITHREDOL**

Nod **'Gwnewch y Peth Iawn:**  
sicrhau tegwch mewn  
cynrychiolaeth hil-ddiffiniedig mewn  
bywyd cyhoeddus a gwleidyddol  
yng Nghymru' yw egluro profiadau,  
dealltwriaeth a chanfyddion pobl  
sy'n byw yng Nghymru ac yn cael  
eu diffinio yn unol â'u hil ('hil-  
ddiffiniedig') mewn perthynas â  
bywyd cyhoeddus a gwleidyddol,  
a chynnig argymhellion gyda g  
olwg ar newid pethau.

“Nid brwydr dros bobl 'BAME' (Pobl Dduon  
ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) yn unig  
mo hyn, mae'n cwmpasu'r gymdeithas  
gyfan, a dw i'n credu taw mater o newid  
calonnau a meddyliau pobl yw e fel y byddan  
nhw'n cydnabod cymunedau 'BAME' a  
chynrychiolaeth 'BAME', ... nid oherwydd ein  
bod ni'n cega am hyn o hyd ond achos taw  
dyna'r peth iawn i'w wneud. ”

(Un a atebodd yr arolwg)

## CYDNABYDDIAETH

### Cynghrair Hil Cymru

Menter newydd yw Cynghrair Hil Cymru (RAW), a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2018 â'r nod o ddarparu gofod hunan-gyfeiriedig lle y gall sefydliadau ac unigolion Du, Asiaidd ac eraill a leiafrifolwyd yn ethnig<sup>1</sup> ddod ynghyd i drafod eu profiadau fel lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, cydrannu gwybodaeth a datblygu syniadau ac atebion newydd i her gynyddol hiliaeth yng Nghymru.

For more information please visit:  
[racealliance.wales](http://racealliance.wales)

Cyflawnwyd gwaith ymchwil gweithredol gan:

**Carlos 'Charlie' Ibarra-Abreu**  
Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

**Felix Omanje**  
Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

**Judy Hoi Yin Li**  
Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

**Robyn Scharaga**  
Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

Ysgrifennwyd gan:

**Jami Abramson**  
Gweithwraig Datblygiad RAW / Cyd-Awdur

**Leila Usmani**  
Arweinydd Ymchwil RAW i Gynrychiolaeth /  
Awdur Arweiniol

Hoffem ddiolch i'r bobl 'hil-ddiffiniedig' ('racialised people') sy'n byw yng Nghymru ac a gymerodd yr amser i gyfrannu eu syniadau, eu teimladau a'u profiadau.

Cyflwynir y papur hwn i'r holl bobl hynny o'n blaenau ni, o'n cwmpas ni ac ar ein holau ni sydd wedi brwydro ac sy'n dal i frwydro yn erbyn hiliaeth. Gan gofio'n arbennig y rhai sydd wedi marw dan ei dwylo. Mae hyn yn ymwneud â phobl go iawn, bywydau go iawn. Ac i'n hynafiaid, a'r cenedlaethau a ddaw, datganwn: mae hyn i chi.

<sup>1</sup>Rydym wedi defnyddio terminoleg wahanol i 'BAME' ym mharhad yr adroddiad hwn. Gweler y manylion yn yr adroddiad llawn



# RHAGAIR

Mae'r papur ymchwil hwn yn rhan o raglen waith ddwy flynedd Cynghrair Hil Cymru sydd wedi derbyn cyllid oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree. Gyda chefnogaeth Gweithwyr Datblygu Cynghrair Hil Cymru, rhwng Gorffennaf a Medi 2020 fe ymgwymerodd pedwar ymchwilydd cymheiriaid â gwaith ymchwil i gynrychiolaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig (BAME<sup>2</sup>) mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru, â'r nod o archwilio profiadau a sylwadau unigolion amrywiol eu tras hiliol sy'n byw yng Nghymru.

Bu 132 o unigolion o ystod amrywiol o gefndiroedd (hil-ddiffiniedig) yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil trwy gyfrwng arolwg tirwedd, cyfweiliadau un-ag-un a grwpiau ffocws. Roedd yr unigolion hyn i gyd p'un ai'n chwarae rôl eisoes mewn bywyd cyhoeddus neu fywyd gwleidyddol yng Nghymru, neu yn awyddus i gymryd rhan ynddo, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Trwy gyfrwng yr ymchwil aethant ati i gydrannu eu profiadau, eu hanesion a'r atebion a oedd ganddynt i'w cynnig i ddatrys diffyg cynrychiolaeth cymunedau hil-ddiffiniedig mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru. Yr astudiaeth ymchwil hon yw'r ymchwil gyntaf seiliedig yn y gymuned, dan arweiniad cymheiriaid, i'r testun hwn yng Nghymru.

Mae Bywyd Cyhoeddus yn cyfeirio at fyrddau cyrff cyhoeddus a reoleiddir gan Gomisiwn Cyrff Cyhoeddus y DU. Mae aelodau byrddau bywyd cyhoeddus yn cael eu penodi, nid eu hethol, ac mae eu swyddi fel arfer, ond nid bob amser, yn ddi-dâl. Mae Bywyd Gwleidyddol yn cyfeirio at swyddi lle y mae'n rhaid i unigolyn sefyll mewn etholiad i gael ei ethol gan yr etholwyr, fel Cynghorwyr er enghraifft mewn Llywodraeth Leol neu fel Aelodau o'r Senedd. Ar hyn o bryd gwelir diffyg difrifol cynrychiolaeth hil-ddiffiniedig yng Nghymru ar draws Cyrff Cyhoeddus, Llywodraeth Leol a Senedd Cymru.

Pan ofynnwyd i'n cyfranwyr 'Yn nhermau cynrychiolaeth gyhoeddus a gwleidyddol – beth sy'n bwysig i chi? Beth hoffech chi ei weld?', yr ateb a gafwyd gan amlaf gan y rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd i'n gwaith ymchwil ni oedd, mewn geiriau syml: sector cyhoeddus a gwleidyddol tecach, mwy amrywiol a mwy cynrychiadol; Cymru lle y bydd hiliaeth

sefydliadol wedi cael ei dileu, a lle y bydd pobl sydd wedi cael eu diffinio yn unol â'u hil yn meddu ar yr un grym â'u cymheiriaid Prydeinig Gwyn.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd y boblogaeth Ddu, Asiaidd ac o Lleafrifoedd Ethnig yng Nghymru'n cyfrif am 4.4% o'r boblogaeth. Serch hynny, roedd yr ymatebwyr hynny a'u diffiniai eu hunain yn y Cyfrifiad yn 'Brydeinig Gwyn' yn cyfrif am 93%. Mae hyn yn awgrymu bod niferoedd y bobl BAME'n sylweddol uwch na 4.4%; amcangyfrifir eu bod yn agosach at 7% o'r boblogaeth. Ond er gwaethaf y newid demograffig hwn, parhau y mae coridorau grym a dylanwad i arddangos môr o wynebau gwyn, ac nid yw'r Gymru yr ydym yn byw ynddi'n cael ei chynrychioli'n ffyddlon yn y ffigyrau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo, trwy ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, i droi Cymru'n wlad decach i fyw a gweithio ynddi gan gynyddu cynrychiolaeth BAME yng Nghymru:

**'Erbyn 2024, byddwn ni wedi cynyddu amrywiaeth y penderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, gan nodi'r**

**meysydd hynny lle y mae angen gweithredu ymhellach at sicrhau gwell cydbwysedd o ran amrywiaeth ymhlith penderfynwyr ac adnabod ac archwilio'r mecanweithiau a all gywiro anghydraddoldeb'.**

(Llywodraeth Cymru, 2020)

Ymrwymiad cadarn yw hwn, a danategir gan nifer o fentrau addawol megis rhaglenni mentora i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a chynyddu cyfleoedd i unigolion sydd wedi'u diffinio yn unol â'u hil i ddod i mewn i fywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Serch hynny, hyd yn oed lle mae rhaglenni'n bodoli, fe all y canfyddion, y ddealltwriaeth a'r rhwystrau sy'n wynebu unigolion amrywiol eu tras hiliol brofi'n anfanteisiol o ran dyheu ymgymryd â rolau mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol a pharhau ynddynt.

<sup>2</sup> Rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r term hwn gan nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n gysurus yn ei gylch; rydym wedi dewis defnyddio'r term 'hil-ddiffiniedig' (sef: wedi'u diffinio neu eu labelu gan y mwyafrif Gwyn yn unol â'u tras hiliol - 'racialised' yn Saesneg) yn ei le, gan gydnabod y broses o labelu pobl eraill mewn termau hiliol a welir ymhlith mwyafrif Gwyn canfyddedig y byd. Rhoddir esboniad pellach yn yr adroddiad llawn.

# CANFYDDIADAU

Mae ein papur yn taflu goleuni ar y **rhwystrau** cymhleth a sylweddol y mae pobl yng Nghymru sydd wedi cael eu diffinio yn unol â'u hil wedi gorfod eu hwynebu wrth iddynt ystyried neu geisio am rolau cyhoeddus neu wleidyddol. Maent yn cwmpasu:

## Hiliaeth sefydliadol a systemig

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at natur wenwynig hiliaeth wrth iddi wngalonni'r rhai sy'n dyheu mynd i mewn i fywyd cyhoeddus neu wleidyddol; roedd mwy na 60% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod hiliaeth sefydliadol yn eu gwngalonni'n fwriadol yn eu hymdrechion i fynd i mewn i fywyd cyhoeddus neu wleidyddol. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at enghreifftiau o'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddiwylliant trosfawol o hiliaeth y tu mewn i lu o sefydliadau. Soniodd y rhan fwyaf yn ogystal am y mwyafrif llethol o wynebau gwngynion a welir ym mhob canolfan grym ymron, ledled Cymru. Datganodd llawer ohonynt nad oeddent erioed wedi cael eu cyfweld gan berson nad oedd yn wyn, ac eithrio mewn sefydliad 'dan arweiniad BAME'. Cydrannodd ymatebwyr eu profiadau o hiliaeth led awgrymedig, anghyffwrdd, gudd, megis cael eu hysbysu mewn modd nawddoglyd eu bod 'yn lwcus iawn i fod wedi cyrraedd lle roeddent'. Teimlai rhai eu bod yn cael eu camarwain a'u tanseilio'n fwriadol –

**'Rwyf ti'n cael dy bryfocio sut gymaint weithiau nes dy fod di'n dechrau credu bod rhywbeth yn bod arnat ti, neu dy fod di'n mynd o dy gof, ond nid dyna beth yw e. Pan wyt ti'n gwranddo ar bawb, [rwyf ti'n sylweddoli:] does dim byd yn bod arnat ti'.**

Yn aml roedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried yn gynrychiolwyr sumbolaidd o fewn eu maes proffesiynol; disgwyliid iddynt gynrychioli pob carfan o bobl hil-ddiffiniedig. Dywedwyd yn blwmp ac yn blaen wrth un ymgeisydd ei fod yn 'benodiad amrywiaethgar'. Soniodd llawer am brofiadau o hiliaeth agored, rhagfarn a chael eu hallgáu'n ddigywilydd mewn cyd-destunau proffesiynol ac addysgol, gan gynnwys enghreifftiau amlwg o gyflogau anghyfartal.

## Gwahaniaethu ym maes cyflogaeth

Mae pobl hil-ddiffiniedig yng Nghymru'n dioddef amddifadedd cymdeithasol-economaidd i raddau anghymesur; mae hyn yn arwain at sefyllfa lle maent yn wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cael eu penodi i swyddi cyhoeddus a gwleidyddol. Eglurodd llawer o'r ymatebwyr eu bod o gefndir teuluol

a magwraeth ddsbarth gweithiol, a'u bod dan bwysedd i fod yn 'fewnfudwyr bach da', gan beidio siglo'r cwch na beirmiadu'r drefn yma yng Nghymru. Datganodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg – 94% - eu bod wedi wynebu gwahaniaethu mewn sefyllfaoedd penodol, gan gynnwys y 69% a honnodd eu bod wedi dioddef gwahaniaethu ym maes cyflogaeth. Nododd un ymatebydd, a oedd yn awyddus i gymryd rôl mewn bywyd cyhoeddus/gwleidyddol, bod gwahaniaethu 'wedi'i ymwreiddio yn systemau'r byd ers dechrau amser'. Adroddodd llawer o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu hanwybyddu wrth ymgeisio am ddirchafiad er bod ganddynt y sgiliau a'r profiadau perthnasol, a'u bod yn haws iddynt gael swyddi yn Lloegr nag yng Nghymru.

## Cyfaddasu gwisg / ymddygiad / modd siarad

Roedd llw o'r ymatebwyr wedi dioddef stereoteipio, camdybiaethau, hen ystrydebau a mân ymosodedd. Dywedwyd wrth un ohonynt: '[dwyf ti] ddim fel y lleill – pam nad yw'r lleill yn gallu bod fel ti?' Datganodd rhai ymatebwyr (29%) eu bod wedi newid eu golwg, sensro eu barn a chuddio elfennau o'u bywyd personol wrth ganlyn cyfleoedd proffesiynol (47%), er mwyn ffitio i mewn a pherthyn yng Nghymru: menywod yn penderfynu peidio â gwisgo dillad traddodiadol er enghraifft. Soniodd eraill am gymryd arnynt bod yn llai deallus er mwyn

peidio ag ypsetio pobl wen, a theimlo wedyn eu bod 'wedi cael fy ngwyngalchu... oherwydd yr hyn yr oedd rhaid i fi ei wneud er mwyn ffitio i mewn'. Adroddodd 69% eu bod wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd eu henwau neu eu cefndir, a dywedodd 46% eu bod wedi newid eu ffordd o siarad.

**Yn nhermau dealltwriaeth a chanfyddiad pobl hil-ddiffiniedig ynghylch bywyd cyhoeddus a gwleidyddol:**

## Difreinio, difaterwch ac aniddigrwydd gwleidyddol

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, a bod eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu; roedd yna ymdeimlad llethol yn eu plith hefyd nad yw pobl mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yn pryderu am foment am gymunedau hil-ddiffiniedig yng Nghymru. Mynegodd y rhan fwyaf hefyd eu diffyg ymddiriedaeth a ffydd mewn sefydliadau sy'n dal grym yng Nghymru. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu hateb gan Senedd Cymru, Llywodraeth Leol na Chyrff Cyhoeddus yng Nghymru. Teimlai llawer nad oedd y rhai sy'n cyfranogi mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yn gweithredu ond er eu lles eu hunain; ystyrid yr ymgysylltu â'r cyrff hyn yn amlach na pheidio yn fater o dalu gwasanaeth gwefus i gymunedau hil-ddiffiniedig, yn hanes



diddiwedd o gyhoeddi adroddiadau nad oeddent yn arwain at newidiadau ystyrlon. Mae bwlich amlwg yng Nghymru rhwng 'nhw a ni'. Roedd yna ymdeimlad pendant, hyd yn oed ymhlith y rhai sydd ag uchelgais i ymuno â bywyd cyhoeddus neu wleidyddol, mai mwya'n y byd y maent yn ei ddysgu am y sectorau hyn, mwyaf anghyrraedd y maent yn ymddangos.

### Diffyg dealltwriaeth a phrosesau cymhleth

Teimlai llawer mai dealltwriaeth arwynebol iawn oedd ganddynt o fywyd cyhoeddus a gwleidyddol, a thystiai nifer o anecdodau i'w diffyg gwybodaeth am beth yw gwir natur a diben bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Teimlai llawer hefyd fod y prosesau at benodi i swyddi gwleidyddol a chyhoeddus yn aneglur, anhryloyw, anhygyrch a chymhleth. Teimlid mai neigarwch a 'phorthora' sydd wrth wraidd diffyg cynrychiolaeth pobl hil-ddiffiniedig, wrth i'r un bobl gael eu gweld yn dal swyddi ar nifer o fyrddau cyrff cyhoeddus a chynghorau lleol.

**'Rydym yn dioddef pla o hiliaeth sefydliadol, cynnydd mewn trais gan yr heddlu, methiant i weithredu mesurau [yn sgil sgandal] Windrush; mae hyd yn oed sefydliadau BAME yn methu**

**â chyflogi rheolwyr Du. Mae lefel aruthrol o anghyfartaledd hiliol i'w gweld yng Nghymru, a does neb yn fodlon delio ag e na sôn amdano oherwydd a] gwrthwynebiad i bobl Ddu, b] ofn cael eich diarddel mewn bywyd cyhoeddus, ac c] yr arfer yng Nghymru o ddifetha cymunedau BAME'n wleidyddol i ddibenion personol.'** (Ymatebydd)

### Diffyg hyder oherwydd absenoldeb rhwydweithiau a chefnogaeth

Ymhlith y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gwelwyd bod diffyg hyder, cefnogaeth a rhwydweithiau'n eu rhwystro rhag anelu at fynd i mewn i fywyd cyhoeddus a gwleidyddol, ac roedd llawer yn cydnabod y ffaith mai 'nid beth dych chi'n ei wybod, ond pwy dych chi'n ei 'nabod' sy'n bwysig. Adroddodd rhai ymatebwyr eu bod wedi mynd i deimlo mai 'nid rhywbeth i fi' yw bywyd cyhoeddus neu wleidyddol, eithr rhywbeth ar gyfer yr élite a'r crachach cefnog – nid plant ymfudwyr. Mynegodd llawer eu pryderon ynghylch aberthu amser ac arian wrth ymuno â bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Gall y diffyg incwm

sefydlog ac oriau gwaith cyson brofi'n rhwystr rhag canlyn cyfleoedd i unigolion sy'n dioddef amddifadedd cymdeithasol-economaidd, a chanddynt deulu a phlant i'w cynnal.

**'Mae'n golygu amser llawn straen, mewn etholiad lle mae'n debyg na fyddi di ddim yn ennill, i daflu dy holl ynni ato fe; mae'n gofyn aberth aruthrol – peth wmbredd o waith gwirfoddol, dim tâl, dosbarthu taflenni, curo drysau – peth wmbredd o amser. Os oes plant bach 'da ti, dyw cadw cydbwysedd rhwng hyn a dy waith ddim yn beth hawdd i neb, yn enwedig i fenywod o leiafrifoedd ethnig.'** (Ymatebydd)

Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu barn mai'r gwir noeth amdani yw nad yw'r pleidiau gwleidyddol yn cynrychioli cymunedau hil-ddiffiniedig yng Nghymru, ac roedd pob un a gyfwelwyd yn meddwl ei bod hi bron yn amhosibl i berson hil-ddiffiniedig gael ei ethol fel ymgeisydd annibynnol.

### Diffyg modelau rôl cadarnhaol

Canlyniad syfrdanol oedd bod 43% yn teimlo nad oedd modelau rôl cadarnhaol hil-ddiffiniedig i'w gweld yn y meysydd hyn yng Nghymru; roedd llawer yn edrych i gyfeiriad Lloegr neu dramor hyd yn oed i chwilio am fodelau i'w hysbrydoli. Adroddwyd nad oedd y rhan fwyaf o fodelau rôl gwladwy o angenrhaid yn gadarnhaol, neu eu bod yn cael eu drygeirio'n rheolaidd. Mae prinder modelau rôl yn amlwg, ac mae hyn yn effeithio ar uchelgeisiau pobl ifanc.

### Ymagwedd negyddol cynlluniau cymorth

Er bod yna rychwant o gynlluniau cymorth yn bodoli i annog pobl 'ar y cyrion' i anelu at swyddi cyhoeddus a gwleidyddol, roedd llawer yn anymwybodol o'u bodolaeth. Y teimlad oedd bod yna elfen o 'borthora' mewn grym wrth iddynt ceisio mynd at y cynlluniau cymorth hyn; credai llawer mai'r unig fodd o ymuno â'r rhain oedd ichi fod yn gweithredu eisoes yn y trydydd sector neu fod mewn cysylltiad â'r bobl iawn. Honnid mai prin oedd effaith rhai cynlluniau ar unigolion hil-ddiffiniedig, ac roedd rhai'n teimlo nad oeddent yn cael eu derbyn ond i lenwi 'blychau ticio' sumbolaidd.

## Hiliaeth Gudd ac Agored

Profwyd rhagfarn hiliol ar raddfa eang gan y rhai a oedd yn dymuno chwarae rôl mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol, a'r rhai a oedd eisoes wedi ymuno ag ef. Roedd yr enghreifftiau a adroddwyd yn cynnwys clywed sylwadau anffafriol ynghylch mudiad Mae Bywydau Du O Bwys, a chlywed pobl yn tybio eu bod yn gwerthu rhywbeth neu'n dosbarthu bwydlenni tecawê tra'u bod yn canfasio neu'n dosbarthu tafenni. Datganodd rhai'n ddiamod nad oeddent yn credu bod pobl Wen yng Nghymru'n barod i weld Prif Weinidog Du na gwell cynrychiolaeth i bobl hil-ddiffiniedig. Roedd y cyfranwyr i gyd yn cydnabod yr ofn y mae pobl hil-ddiffiniedig mewn bywyd cyhoeddus yn ei deimlo yn wyneb camdriniaeth, bygythion ac ymosodiadau, yn uniongyrchol ac ar-lein. Ar ben hyn, tueddai hiliaeth gudd i ymdoddi'n hiliaeth agored, yn ôl yr anecdotau di-rif ynghylch mân ymosodedd a gweithrediadau sumbolaid megis clywed nad oedd modd i ail berson hil-ddiffiniedig sefyll mewn etholiad gan fod un yn hen ddigon, neu fod perygl iddynt 'rannu'r bleidlais BAME'.

**'Dw i'n teimlo weithiau fy mod i'n rhy frown i ennill y bleidlais wen ac yn rhy wyn i ennill y bleidlais frown'.**

(Ymatebydd)

**Nid yw'n stori hollol negyddol serch hynny, a buom yn archwilio hefyd beth yw'r prif ffactorau cymhellol ar gyfer pobl hil-ddiffiniedig yng Nghymru sy'n dyheu chwarae rhan mewn bywyd cyhoeddus neu wleidyddol:**

Datganodd rhai eu dyhead i fod yn llwyddiannus a hybu eu gyrfa, wrth weld sut mae'r swyddi hyn wedi bod yn fuddiol i yrfaedd proffesiynol pobl eraill. Rhestrodd nifer o ymatebwyr eu rhesymau gan gynnwys dysgu, arsylwi a datblygu eu dealltwriaeth, ynghyd â dymuniad diamwys i ddeall pam ei bod hi mor anodd pontio'r bwlch. Roedd 40% o'r ymatebwyr yn adnabod rhywun mewn bywyd cyhoeddus a/neu wleidyddol yng Nghymru'n bersonol, ac yn teimlo rhyw ysbrydoliaeth i ymuno â'r frwydr dros gyfiawnder i gymunedau hil-ddiffiniedig yng Nghymru. Roedd llawer ohonynt yn awyddus i ddod â newid i'r drefn ac i'r gymdeithas, gan herio'r status quo a thro'i'r byd yn lle gwell i'w plant. Datganodd eraill yn syml fod eu dyhead wedi deillio o'r ffaith eu bod wedi cael eu gwahodd i ymuno, eu cyfethol i wrdd neu eu denu draw i sefydliad arall.

**'Dyw'r drefn ddim yn gweithio i bobl BAME, a fydd pethau byth yn newid os na fydd neb yn gwneud rhywbeth'.**

**Roedd yna fecanweithiau cefnogol penodol, neu ffactorau hwyluso mewn bodolaeth hefyd i gynorthwyo pobl hil-ddiffiniedig i fynd i mewn i swyddi cyhoeddus a/neu wleidyddol:**

Soniwyd am fentora, hyfforddi a chysgodi fel rhai o'r ffactorau mwyaf defnyddiol o ran hyrwyddo symudiad i mewn i fywyd cyhoeddus a gwleidyddol; roedd y buddion yn cynnwys cael mwy o brofiad, dysgu rhagor am brosesau, magu sgiliau a chael mynediad at rwydweithiau. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a oedd wedi llwyddo i ennill lle mewn bywyd cyhoeddus neu wleidyddol wedi cyflawni maint sylweddol o waith gwirfoddol gyda sefydliadau cymunedol, ac roedd hyn wedi agor drysau iddynt. Soniodd rhai am bwysigrwydd anogaeth weithredol, rhwydweithiau, nawdd a bodolaeth cynghreiriaid gweithgar fel elfen hanfodol ar hyd y llwybr at ennill swyddi. Ymhlith yr awgrymiadau eraill a wnaed soniwyd am brosesau recriwtio dienw ynghyd â phaneli

amrywiol eu haelodaeth; y teimlad oedd bod mesurau o'r fath yn gwneud ymgeiswyr yn fwy cyfforddus ac yn llai tebyg o synhwyro hiliaeth gudd. Mynegwyd ymwybyddiaeth yn aml hefyd o bwysigrwydd cael mynediad at gyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol, a chael nawdd ariannol a chefnogaeth wrth ymgyrchu dros swyddi gwleidyddol. Galwyd yn aml am drefniadau gweithio mwy hyblyg, yn enwedig mewn rolau gwleidyddol – gan gynnwys cydrannu swyddi a gweithio gartref – fel y gellid cyflawni cyfrifoldebau teuluol a gofalu ochr yn ochr â dyletswyddau proffesiynol.

Yr hyn a ddaeth yn hollol amlwg trwy ein gwaith ymchwil yw realiti'r rhwystrau cyffwrddadwy ac anghyffwrdd a wynebid gan bobl hil-ddiffiniedig sy'n awyddus i ymgymryd â rolau cyhoeddus neu wleidyddol. Clywsom hefyd am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n helpu i gynorthwyo, cefnogi ac annog unigolion i ystyried cyfranogi mewn bywyd cyhoeddus neu wleidyddol. Er gwaethaf bodolaeth nifer o fentrau addawol, rydym yn dal i wynebu golygfa lle mae mwyafrif llethol o'r wynebau a welir mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yn wyn. Pa bethau eraill y bydd yn rhaid eu newid a'u rhoi ar waith i bryso bodolaeth sector cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru fydd yn gynrychioladol, yn hiliol a mewn ffyrdd eraill, o'r boblogaeth?

# ARGYMHELLION

Ar sail ein gwaith ymchwil, byddem yn cynnig yr argymhellion canlynol gyda golwg ar gynyddu cynrychiolaeth mewn Cymru wrth-hiliol<sup>3</sup>:

**Byddwch yn ddewrach ac yn fwy anturus: Ymrwymwch i weithredu'r newidiadau cymdeithasol ehangach sydd angen yng Nghymru**

1. Gyda golwg ar ymladd yn erbyn diffyg dealltwriaeth o fywyd cyhoeddus a gwleidyddol, mae'n rhaid inni yng Nghymru wella'r addysg gymdeithasol-wleidyddol a ddarperir, a hynny trwy gyfryngau ffurfiol ac anffurfiol megis addysg yn y gymuned.
2. Rhaid i gyrff cyhoeddus a gwleidyddol ehangu eu mentrau ymgysylltu â chymunedau hil-ddiffiniedig ar draws Cymru er mwyn creu sianel gyfathrebu ddwy-ffordd ystyrion, gan osgoi talu gwasanaeth gwefus ac ymgysylltu gwag-sumbolaidd.
3. Dylai cyflogwyr, gyda chefnogaeth undebau llafur a chyrff annibynnol eraill, ymrwymo i fynd i'r afael yn egniol â hiliaeth ym myd cyflogaeth, i alluogi pobl hil-ddiffiniedig i gyrraedd uwch swyddi, gan fanteisio ar eu sgiliau a llwybrau tuag at fywyd cyhoeddus a gwleidyddol.
4. Mae'n rhaid ymdrechu ar y cyd i ddatgoloneiddio systemau a phrosesau yng Nghymru er mwyn cryfhau tegwch cymdeithasol-economaidd, gan gynnwys sicrhau bod pobl hil-ddiffiniedig yn cael eu talu am eu mewnbwn – boed yn ariannol neu drwy ddarparu credyd proffesiynol am eu cyfraniadau i waith ymchwil, cyfarfodydd bord gron, digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adroddiadau.
5. Rhaid deddfu i hwyluso cosbau egniol yn erbyn platfformau cyfryngol sy'n methu â lliniaru ymgomion a chynnwys sy'n hyrwyddo casineb hiliol, a gweithredu'r Papur Gwyn ynghylch 'Niwed Ar-lein' sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth San Steffan.
6. Rhaid i gyrff cyhoeddus a gwleidyddol arddangos eu hymrwymiad a'u dealltwriaeth o werth amrywiaeth yng nghyd-destun cynrychiolaeth, gan gynnwys arddangos yn gyhoeddus ddull gweithredu seiliedig ar Ddim Goddefgarwch tuag at bob math o hiliaeth a gwahaniaethu, boed sefydliadol neu systemig, cudd neu agored.

**Dangoswch inni ein bod ni o bwys ichi: Anogwch gymunedau ac unigolion hil-ddiffiniedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol**

7. Ehangwch gwmpas, cyrhaeddiad, hygyrchedd a chynhwysiant rhaglenni ffurfiol a mentrau megis mentora, hyfforddi, cysgodi, interniaethau a rhwydweithiau proffesiynol.
8. Ehangwch ddarpariaeth rhaglenni sy'n cael eu trefnu gan bobl hil-ddiffiniedig, ar gyfer pobl hil-ddiffiniedig, sy'n cyfrannu at sicrhau ymdeimlad o ymddiriedaeth a thrwy hynny y gallu i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn a chael y budd mwyaf posibl ohonynt.
9. Rhaid gwella'r ddarpariaeth wahaniaethol mewn rhaglenni mentora er mwyn darparu'n well ar gyfer pobl sydd ar wahanol lefelau o ran dealltwriaeth, gwybodaeth a phrofiad. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth benodol yn anelu at ymfudwyr, pobl ifanc a menywod.
10. Cynyddwch y cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau cymorth amrywiol hyn er mwyn eu darparu'n fwy effeithiol yn unol â phwynt 9, gan sicrhau bod pob cynllun yn derbyn cyllid digonol a phriodol.

**Defnyddiwch eich grym: Addaswch brosesau i hyrwyddo'n well fynediad cymunedau ac unigolion hil-ddiffiniedig at fywyd cyhoeddus a neu wleidyddol**

11. Rhaid i brosesau fod yn fwy tryloyw, gan ganoli'r cyfleoedd sydd ar gael ochr yn ochr â chyngor manwl ynghylch sut i lenwi ffurflenni cais, a hynny gyda golwg ar gadw prosesau ymgeisio rhag troi'n lladdfa i'r ymgeisydd.
12. Rhaid i brosesau ymdrechu i werthfawrogi'r profiadau y mae pobl wedi byw trwyddynt ochr yn ochr â'u cefndiroedd proffesiynol ac addysgol, gan ddangos bod pobl hil-ddiffiniedig yn cael eu cymryd o ddifrif a bod eu cyfoeth sgiliau a'u gwybodaeth yn cael eu gwerthfawrogi.
13. Defnyddiwch weithredu cadarnhaol, gan fanteisio lle y gellir dan y gyfraith ar ddarpariaethau o ran cwotáu, targedau, a chadw lleoedd ar gyfer pobl hil-ddiffiniedig, yn unol ag Adran 104 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Sicrhewch hefyd fod pob panel yn cynnwys cynrychiolydd hil-ddiffiniedig, a bod prosesau recriwtio'n hollol ddi-enw.

<sup>3</sup> Awgrymwn yn daer y dylid darllen – o leiaf – y sylwadau terfynol yn yr adroddiad llawn sy'n egluro'n fanylach pam a sut y dylid rhoi'r argymhellion hyn ar waith.



14. Ewch i'r afael â thelerau gwahanol swyddi, gan osod cyfyngiad ar nifer y gweithiau y gall unigolyn ymgynnig am swydd, a chynigiwch amodau gweithio hyblyg gan gynnwys cydrannu swyddi ar gyfer pob rôl gyhoeddus a gwleidyddol. Darparwch Gronfeydd Mynediad y gall pob unigolyn 'ar y cyrion' fanteiso arnynt i ymgyrchu.
15. Rhaid datblygu cynlluniau gweithredu dros amrywiaeth ar gyfer pob corff cyhoeddus a gwleidyddol. Rhaid i hyn gynnwys cyhoeddi data monitro cydraddoldeb (gan gydymffurfio ag Adran 106 o'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n mandadu pleidiau gwleidyddol i wneud felly), archwiliadau cyhoeddus, arolygiadau a monitro, gydag ymchwiliadau annibynnol a chosbau diamwys pan geir tystiolaeth i fodolaeth hiliaeth, boed sefydliadol, systemig, cudd neu agored.

#### Rhaid dileu'r llen fwg:

#### Rhaid i gyrff cyhoeddus a gwleidyddol arddangos cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

16. Rhaid i sefydliadau cyhoeddus a gwleidyddol fod yn fodlon ac yn barod i ddatgelu eu methiannau yn ogystal â'u llwyddiannau ar goedd yn rheolaidd, a thystio i'w gonestrwydd trwy arddangos

a mesur y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud. Dylai cydymffurfedd sefydliadau â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gael ei fesur, ei fonitro a'i lygadu'n fwy effeithlon, a dylai cosbau diamwys fod mewn grym.

17. Mae angen darparu hyfforddiant ac addysg safonol, eang a pharhaus ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pob aelod staff a phob cynrychiolydd, dan arweiniad priodol pobl 'ar y cyrion.' Rhaid i hyn gwmpasu sensitifrwydd rhyngddiwyllynnol, gwrth-hiliaeth, problemau ynghylch hawliau rhywedd, hawliau trawsryweddol, hawliau LGBTQIA+ a hawliau pobl ag anableddau cymdeithasol. Ar ben hyn mae'n rhaid i'r fath hyfforddiant arddangos dealltwriaeth o wreiddiau'r systemau ddoe a heddiw sydd wedi cynnal yr anghydraddoldeb strwythurol, y grym a'r lefelau braint a welir o hyd.
18. Rhaid i bobl mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru ymuno'n galonnog yn y frwydr dros hawliau pobl hil-ddiffiniedig, yn ogystal â hawliau pobl wahanol eu rhywedd, hawliau trawsryweddol, hawliau LGBTQIA+ a hawliau pobl ag anableddau cymdeithasol, gan symud i ffwrdd o ddynesiadau 'un maes ar y tro' at wir cydraddoldeb rhyngblethol.

#### Yn y cyfamser, yn y sefyllfa sydd ohoni, beth gallwn ninnau ei wneud, fel pobl hil-ddiffiniedig sydd â dyhead i chwarae rhan mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol?

19. Daliwch at eich cymhelliad personol, gan gadw at weledigaeth glir. Magwch eich gwytnwch, byddwch yn hyderus, byddwch yn sicr y gallwch chi lwyddo, er y bydd yn anodd.
20. Byddwch yn ddiogel. Sicrhewch fod pobl gefnogol a chynghreiriaid o'ch cwrpas, gartref, ar goedd gwlad ac yn y gwaith.
21. Cymerwch amser i gynllunio, gan fanteisio ar bob cyfle sy'n ymddangos.
22. Chwaraewch rôl ragweithiol yn y gymuned, manteisiwch ar gyfleoedd i ymuno â byrddau eraill, yn enwedig rhai sydd y tu allan i'ch maes proffesiynol chi.
23. Ymunwch â phleidiau gwleidyddol a chymerwch ran mewn cyfarfodydd lleol.

#### Ac, i'r rhai sy'n llwyddo i gael swyddi cyhoeddus a gwleidyddol -

24. Estynnwch fraich grym a braint i eraill. Peidiwch cau'r bont godi ar eich ôl.

Ymrwymwch i fentora, cynllunio ar gyfer olyniaeth, a chyfleoedd i hyfforddi a darparu cyfleoedd i gysgodi.

25. Sefwch dros ein hawliau, ac fe safwn ninnau y tu ôl i chi. Rhowch inni'r modelau rôl sydd eu hangen arnom i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

**'Byddwch yn groendew, peidiwch cymryd pethau'n bersonol, ac arhoswch yn gryf trwy gydol y broses – chwiliwch am gymorth pan fydd ei angen heb gywilyddio – codwch gynghreiriau, gwnewch ffrindiau. Nid yw'r daith yn un hawdd o bell ffordd. Ond gallwch chi fynd ymlaen ar sail gadarn eich geirwiredd, eich cadernid, eich gonestrwydd, gan aros yn bositif a symud ymlaen heb betruso nac ildio. Fe allwch chi gyflawni'r nod. Gallwn ni oll gyflawni'r nod.'**

(Gwleidydd)

I gael copi o'r adroddiad llawn ewch i [www.racealliance.wales/research](http://www.racealliance.wales/research) neu e-bostiwch [info@racealliance.wales](mailto:info@racealliance.wales)

Cynghrair Hil Cymru

Ionawr 2021





[www.racealliance.wales](http://www.racealliance.wales)



[info@racealliance.wales](mailto:info@racealliance.wales)



[RaceAllianceWales](https://www.facebook.com/RaceAllianceWales)



[WalesRace](https://twitter.com/WalesRace)